

## LEWIS, IDRIS (1889 - 1952), cerddor

**Enw:** Idris Lewis  
**Dyddiad geni:** 1889  
**Dyddiad marw:** 1952  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth  
**Awdur:** Huw Williams

Ganwyd yn Birchgrove, Llansamlet, Morgannwg, 21 Tachwedd 1889, yn fab i löwr. Ymddiddorai mewn cerddoriaeth yn ieuanc; enillodd ysgoloriaeth i astudio yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain yn 16 oed, a daeth i amlygrwydd fel pianydd. Ar ôl cwblhau ei addysg gerddorol aeth ar daith i'r India a'r Dwyrain Pell, 1911-12, a rhoi cyfres o ddatganiadau ar y piano yn rhai o'r prif ddinasoedd yno. Yn ddiweddarach ymsefydlodd yn Llundain, lle y bu'n gyfarwyddwr cerdd cynorthwyol Theatr Daly ac yn gyfarwyddwr cerdd theatrau Lyric a Gaiety (1915-27). Bu hefyd yn gwasanaethu fel organydd capel Cymraeg Charing Cross (MC) (1923-26), ac fel arweinydd Cymdeithas Gorawl Cymry Llundain. Yn 1927 ymunodd â chwmni British International Pictures yn Elstree, ac yn rhinwedd ei swydd fel cyfarwyddwr cerdd y cwmni hwnnw (1931-35) bu'n gyfrifol am drefnu'r gerddoriaeth ar gyfer nifer o ffilmiau adnabyddus, yn eu plith *Blossom Time*, gyda Richard Tauber yn gwasanaethu fel datganwr.

Un o'r rhai a swynwyd gan y ffilm hon oedd [Sam Jones](#), a oedd ar y pryd yn gynhyrchydd rhaglenni Cymraeg gyda'r B.B.C., ac ar ôl deall mai Cymro oedd Idris Lewis llwyddodd i'w berswadio i ymuno â'r B.B.C. yng Nghaerdydd, lle y bu'n gyfarwyddwr cerdd rhanbarth Cymru (1936-52), y cyntaf i'w benodi i'r swydd honno. Bu farw yn ei gartref yn Llandaf, 15 Ebrill 1952, ac amlosgwyd ei weddillion yng Nglyntaf.

Y mae'n ffigur pwysig yn hanes cerddoriaeth y genedl, yn bennaf oherwydd ei waith arloesol yn darlledu cyngherddau cerddorfaol o Gaerdydd. Bu hefyd yn gyfrifol am drefnu cyfresi o raglenni lleisiol poblogaidd ar radio sain, yn eu plith ' *Melys Lais* ' a ' *Cenwch im yr hen ganiadau* '. Er nad oedd yn gyfansoddwr toreithiog ysgrifennodd a threfnodd amryw o weithiau derbyniol ar gyfer corau meibion, ac erys ambell unawd allan o'i osodiad o ' Alun Mabon ' ([Ceiriog](#)), a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn 1935, yn boblogaidd ar lwyfan eisteddfod a chyngerdd. Ef yw awdur y llyfr buddiol *Cerddoriaeth yng Nghymru* (1945) a gyfieithiwyd i'r Gymraeg gan Enid Parry. (Brawd iddo oedd D. H. Lewis, Llanelli, awdur *Cofiant J.T. Rees*, ynghyd â nifer o ysgrifau ar gerddorion y genedl a gyhoeddwyd yn *Y Genhinen* a chylchgronau eraill).

### Awdur

Huw Williams, (1922 - 2002)

### Ffynonellau

*Complete Catalogue of Contemporary Welsh Music*, 5, (1972)

*Who's who in Music* (Llundain 1935)

*Western Mail*, 16 Ebrill 1952

gwybodaeth gan Sam Jones yn 1971

### Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [The T\\_Cerdd Archive: Idris Lewis](#)

VIAF: [63961735](#)

Wikidata: [Q20746800](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

